Y Crwban dŵr

Parchu dymuniadau eraill

Y duw Seus oedd pennaeth y duwiau eraill i gyd. Ef oedd y duw cryfaf a mwyaf cadarn. Pan fyddai'n flin byddai'n hyrddio'r taranau o gwmpas, a phan fyddai hyn yn digwydd byddai'r duwiau eraill i gyd yn crynu mewn ofn. Duw cas ac annymunol oedd Seus.

Pan benderfynodd Seus ei fod am briodi, gwahoddodd yr holl anifeiliaid, bob un ohonyn nhw, i'r wledd briodas. Pan ddaeth y diwrnod mawr cychwynnodd yr anifeiliaid i gyd ar ei taith, yn cyfarth a brefu, yn rhochian a gwichian, yn udo a chwyrnu, yn gweryru a chwibanu a phob un yn edrych ymlaen yn hapus. Fe gawson nhw ddiwrnod i'w gofio. Pob un yn cael bwyta y bwydydd roedden nhw'n ei hoffi orau. Pan ddaeth yr hwyr roedd pob un o'r anifeiliaid yn dew, dew.

Edrychodd Seus arnyn nhw gan wenu. Ond yn sydyn dechreuodd wylltio, "Ble mae'r crwban dŵr?" gofynnodd i Hera ei wraig newydd. "Pam nad ydi'r crwban dŵr wedi dod i'r wledd briodas?"

Edrychodd Hera'r dduwies o gwmpas ystafell y wledd a gwelodd nad oedd y crwban dŵr yno ymhlith yr anifeiliaid eraill. "Mi af am dro i chwilio am y crwban dŵr a gofyn iddo pan nad oedd o wedi dod i'r wledd briodas," meddai Seus.

Y diwrnod canlynol, daeth Seus ar draws y crwban dŵr yn gorffwyso'n dawel yng nghanol y mwd ar lan yr afon. "Crwban d_r, pam nad oeddet ti, o bawb, yn y wledd briodas ddoe?" gofynnodd Seus mewn llais tyner.

Ceisiodd y crwban guddio tu ôl i ddeilen fawr oedd yn tyfu ar lan yr afon. Ni ddywedodd air o'i ben.

"Pam nad oeddet ti yn y wledd briodas ddoe? Rho ateb i mi," mynnodd Seus. Cododd y crwban dŵr ei ben a sibrydodd mewn llais distaw, ofnus, "Does unman yn debyg i gartref." Trodd Seus yn gas. Gwaeddodd mewn llais cras oedd mor uchel nes dychryn yr holl adar oedd yn y coed, "Felly'n wir. O

hyn ymlaen byddi'n cario dy dŷ ar dy gefn i ble bynnag y byddi'n mynd." Yna diflannodd Seus drwy'r fforest gan wneud sŵn fel taran.
Yn sydyn teimlodd y crwban dŵr bwysau ar ei gefn. Roedd cragen galed yn gorchuddio ei gefn o'i wddf at fôn ei gynffon. Dechreuodd grafangu i ffwrdd gyda'i ben, blaen ei gynffon a'i bedair coes yn ymddangos o dan ei gragen.
O'r amser hwnnw, mae holl grwbanod dŵr y byd yn cario eu tai ar eu cefnau.

Weithiau, O Dduw, mi ydw i eisiau fy ffordd fy hun. Dydw i ddim yn hidio dim am deimladau pobl eraill. Wnei di fy helpu i fod yn berson mwy dymunol. Amen.

✦ Fyddech chi'n dweud fod y duw Seus yn berson annymunol? Pam?
✦ Tybed oedd Seus hefyd yn berson hunanol?